OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 Rhif 281 (Cy. 42)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2023*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -	*9 Mawrth 2023*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2023*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 113(2) a (3), a 115 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**), ac adrannau 1, 11(2) a (3), a 12(1) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008(**2**).

(**1**) 2003 p. 43. Mewnosodwyd adran 113(2)(d) gan adran 10 o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 (mccc 1). Diddymwyd adran 113(3)(b) gan adran 95 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) a pharagraff 45 o Atodlen 5 iddi, a chan adran 166 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 15 iddi. Mae diwygiadau eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2008 mccc 1.